# Crynodeb Cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Llangywer (cyn cadarnhau'r Cofnodion)

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol ac Ymddiheuro | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 20/6/22 | Dim | Geraint Roberts (Cadeirydd), Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, Lis Puw (Clerc)<br><br>Clwyd Davies a W D Williams. | Gwiriwyd terfynau'r Fynwent ar gyfer y Gofrestrfa a chyfarwyddwyd y Clerc i barhau gyda'r trefniadau gyda'r Cyfreithwyr ac i arwyddo ar ran y Cyngor. Nodwyd ffi'r Cyfreithwyr a ffi debygol y Gofrestrfa.<br><br>Cymeradwywyd cais **Adeiladu tŷ deulawr ar wahân ar gyfer gweithiwr amaethyddol, adeiladu garej ar wahân, a gosod tanc carthion Tir yn Pant-y-Ceubren, Llanuwchllyn. LL23 7DD** Rhif Cais<br><br>Ystyriwyd y Ffurflen Flynyddol gan gynnwys y Datganiadau Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/21. Cytunodd yr aelodau i'r Ffurflen Flynyddol gael ei hanfon at yr Archwilydd allanol ac arwyddwyd hi gan y Cadeirydd.<br><br>Cytunodd y Clerc i brynu "dongle" i'r Cyngor i'w ddefnyddio ar gyfer Zoom yn y Neuadd, ac i'r Cyngor i ddigolledi'r Clerc am hyn. |